WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllunio Arbedion – **Cyngor Sir Caerfyrddin**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 662A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Sian Clark, Janet Smith a Jeremy Evans, o dan gyfarwyddyd Alan Morris

# Cynnwys

Er bod gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer cynllunio arbedion, sy’n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol, erys rhywfaint o ddiffyg trylowder yn yr adroddiadau ariannol o hyd.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 6

Adroddiad manwl

Er bod gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer cynllunio arbedion, sy’n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol, erys rhywfaint o ddiffyg trylowyder yn yr adroddiadau ariannol o hyd 7

Cyd-destun 7

Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16 9

Mae’r Cyngor wedi nodi ei fod wedi cyflawni 82% o’i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni 9

Trefniadau cynllunio ariannol 10

Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol cadarn ond cyfyngedig yw’r cysylltiadau rhwng prosesau cynllunio corfforaethol ac ariannol ac adroddiadau i’r Aelodau 10

Cynllun Arbedion 2016-17

Mae’r Cyngor yn rhagweld y caiff 86% o’i gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 eu cyflawni ond nid yw rhai ohonynt yn cynnwys digon o fanylion nac amserlenni cyflawni realistig 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae systemau rheoli ariannol da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yn barhaus. Oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol mae gwaith cynllunio ariannol da, ynghyd â chynlluniau arbedion tra ystyriol, yn hanfodol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol.

2 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ateb y cwestiwn canlynol: **A yw trefniadau cynllunio arbedion ariannol y cyngor yn cefnogi cydnerthedd ariannol?**

3 Mae gwaith cynllunio ariannol da:

- yn helpu cynghorau i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor;
- yn helpu cynghorau i ddarparu gwasanaethau i gyflawni rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion cymunedau lleol;
- yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau llywodraethu corfforaethol da;
- yn ymwneud cymaint â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol ag â rheoli arian;
- yn sail i ansawdd gwasanaethau a gwella gwasanaethau;
- yn sail i atebolrwydd i randdeiliaid am warchod a defnyddio adnoddau; ac
- yn ddisgyblaeth reoli allweddol.

4 Mae gwaith cynllunio ariannol ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor yn cynnwys deall y galw yn y dyfodol, asesu effaith newidiadau tebygol, adolygu'r bylchau rhwng anghenion ariannu ac incwm posibl a, lle y bo angen, ddatblygu strategaethau arbedion priodol.

5 Dylai blaenoriaethau strategol cyngor a'i iechyd ariannol fod yn sail ar gyfer penderfynu beth sy'n ymarferol. Gall strategaethau ariannol hirdymor a chynlluniau ariannol tymor canolig tra ystyriol a manwl sicrhau y caiff blaenoriaethau strategol eu cyflawni drwy alluogi awdurdod i wneud dewisiadau ariannol priodol. I'r gwrthwyneb, mae gwaith cynllunio cyllidebol blynyddol byrdymor yn annog awdurdodau i fabwysiadu dull gweithredu cynyddrannol a lywir gan brosesau sy'n rhy anhyblyg mewn cyfnod o newid allanol cyflym.

6 Caiff cynghorau tua 80% o'u hincwm net oddi wrth Lywodraeth Cymru, dim ond 4-5 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y daw'r union ffigur yn hysbys. Er bod hyn yn effeithio ar waith cynllunio ariannol, gall cynghorau ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth i ragweld amgylchiadau sy'n newid, pennu blaenoriaethau, gwneud dewisiadau a rheoli'r modd y darperir gwasanaethau. Gallant gyfrifo faint o arian y byddai ei angen arnynt er mwyn darparu gwasanaethau (yn ôl prisiau cyfredol neu brisiau yn y dyfodol) ac ystyried senarios amgen o ran incwm a gwariant er mwyn nodi bylchau a pharatoi ar gyfer y dyfodol drwy ymchwilio i ddulliau gweithredu gwahanol.

7 Yn ystod 2015-16 cyflawnodd Swyddfa Archwilio Cymru waith ym mhob cyngor er mwyn asesu digonolrwydd ei drefniadau cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol. Cyflwynwyd adroddiadau lleol a chyhoeddwyd adroddiad cryno cenedlaethol ym mis Awst 2016. Daeth yr adroddiad cryno cenedlaethol i'r casgliad bod **awdurdodau lleol yn gwella eu trefniadau cynllunio strategol ond yn cael anhawster yn datblygu a darparu'r arbedion a'r newidiadau i wasanaethau ar y cyflymder sy'n ofynnol i sicrhau cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.**

8 Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016, rydym wedi canolbwyntio ar waith i nodi arbedion, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni. Ystyriwyd i ba raddau y cyflawnodd Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2015-16, arbedion ar gyfer 2015-16, ansawdd ei gynlluniau ariannol tymor canolig a chadernid ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17.

9 Ystyriwyd tri chynnig ar gyfer gwneud arbedion yn 2016-17 ac ystyriwyd y tybiaethau sy'n sail iddynt, ac a oes systemau digonol i sicrhau y gellir eu cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig.

10 Yn dilyn y gwaith a wnaed yn 2015-16 aethom ati i nodi'r hyn a wnaeth y Cyngor o ganlyniad i'r hyn a ddysgodd a sut y mae wedi ymateb i'n cynigion ar gyfer gwella mewn perthynas â chynllunio ariannol os gwnaethom unrhyw rai.

11 Yn yr adroddiad hwn rydym wedi disgrifio rhai o nodweddion allweddol cynllunio ariannol effeithiol – Nodweddion cynllunio ariannol da. Mae archwilwyr wedi defnyddio'r rhain a ffactorau eraill i lunio barn gytbwys ar effeithiolrwydd trefniadau cynllunio ariannol cyngor a gwerthuso gallu cyngor i gyflawni ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig a'i arbedion arfaethedig.

12 Yn ein hadolygiad yn 2015-16 daethom i'r casgliad **y gellid gwella gwaith cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor, ond bod y trefniadau rheoli yn gadarn a bod y trefniadau llywodraethu ariannol yn dda.**

13 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad, **er bod gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer cynllunio arbedion, sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol, bod rhywfaint o ddiffyg tryloywder yn yr adroddiadau ariannol o hyd**

14 Mae’r Cyngor yn bwriadu cysoni ei waith cynllunio gwasanaethau, ariannol a gwella yn ei broses gyllidebol ar gyfer 2017-18. Hefyd, mae ganddo strategaeth ddrafft ynglŷn â chronfeydd wrth gefn nad yw wedi’i chymeradwyo eto ac mae’n datblygu polisi cynhyrchu incwm/codi tâl.

# Cynigion ar gyfer gwella

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Byddai’n anarferol pe na baem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella ac, os byddwn yn gwneud hynny,
gall yr Archwilydd Cyffredinol gymryd nifer o gamau. Yn yr achos hwn mae cynnig ar gyfer gwella wedi’i wneud a byddem yn disgwyl i’r Cyngor wneud rhywbeth yn ei gylch.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Atgyfnerthu’r trefniadau cynllunio ariannol drwy wneud y canlynol:<br>• datblygu cysylltiadau penodol rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a phrosesau cynllunio corfforaethol y Cyngor;<br>• cynnwys adroddiadau monitro ar gyfer cynlluniau arbedion gyda’r adroddiadau monitro ariannol chwarterol sydd ar gael i’r cyhoedd;<br>• sicrhau bod amserlenni cyflawni mewn achosion busnes yn gadarn;<br>• llunio’r polisi cynhyrchu incwm/codi tâl yn derfynol a’i gymeradwyo; a<br>• chymeradwyo’r strategaeth a ddatblygwyd ynglŷn â chronfeydd wrth gefn. |

# Adroddiad manwl

## Er bod gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer cynllunio arbedion, sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol, erys rhywfaint o ddiffyg trylowder yn yr adroddiadau ariannol o hyd

### Cyd-destun

15 Ers 2010, mae Llywodraeth y DU wedi lleihau ei gwariant ar wasanaethau cyhoeddus fel rhan o'i chynllun i leihau'r diffyg. Yn sgil y toriadau i'w chyllideb, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud dewisiadau anodd o ran sut i ddosbarthu'r toriadau ariannol hynny rhwng y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. O ganlyniad, mae'r cyllid craidd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i gynghorau lleol wedi gostwng bob blwyddyn. Hyd yma, mae'r rhan fwyaf o gynghorau lleol wedi llwyddo i leihau eu gwariant a mantoli eu cyllidebau, ond mae'r gostyngiadau blynyddol yn debygol o barhau ar yr un lefel. Dengys ein dadansoddiad, rhwng 2013-14 a 2016-17, fod gostyngiad o £483 miliwn (10.9%) wedi bod yn y cyllid craidd hwn mewn termau real[1].

16 Mae'n bosibl y bydd effaith y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn fygythiad i gynghorau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Yn syth ar ôl y penderfyniad cafwyd ymateb yn y marchnadoedd ariannol a arweiniodd at anwadalrwydd, er enghraifft, ym mhrisiau cyfranddaliadau, cyfraddau cyfnewid arian cyfred, prisiau olew ac arenillion bondiau, ac mae'r DU yn parhau i wynebu cryn dipyn o ansicrwydd yn ogystal â chwestiynau pwysig am gydberthnasau economaidd a masnachol ag Ewrop yn y dyfodol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi mynegi pryderon ynghylch goblygiadau canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, gan ei alw'n newid enfawr ym mholisi cyhoeddus y DU[2] yn enwedig am mai cynghorau lleol gyda'i gilydd yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru ac am eu bod darparu llawer o wasanaethau cyhoeddus pwysig.

[1] Mae cymharu cyllid craidd (Cyllid Allanol Cyfun) yn ystod y cyfnod rhwng 2013-14 a 2016-17 yn gymhleth am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori grantiau a roddid ar wahân yn flaenorol mewn cyllid craidd. Er bod y broses hon o 'ddadneilltuo' grantiau yn arwain at gynnydd mewn cyllid craidd, nid yw o reidrwydd yn gynnydd net mewn cyllid. Mae gwerth net grantiau a ymgorfforwyd mewn cyllid craidd ers 2013-14 tua £76 miliwn mewn termau real (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant).


[2] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Pryder am effaith y refferendwm ar wasanaethau**, 24 Mehefin 2016

17 Er bod yr arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng yn gyffredinol, bu disgwyl i gynghorau ddiogelu ysgolion a gofal cymdeithasol rhag y rhan fwyaf o'r pwysau. Mae gofal cymdeithasol yn arbennig wedi'i chael hi'n anodd hyd yn oed gyda'r diogelwch hwn am fod newidiadau demograffig wedi cynyddu'r galw am wasanaethau. Fodd bynnag, golyga hyn mai gwasanaethau eraill sydd wedi wynebu'r rhan fwyaf o'r toriadau ac mae eu cyllidebau wedi gostwng 30% neu fwy mewn termau real ers 2013-14.

18 Cafodd y Cyngor gymorth ariannol gwerth £251.7 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17. Mae hyn yn cyfateb i £1,333 fesul unigolyn yn y sir, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ond yn ostyngiad o 9.67%[3] y pen mewn termau real ers 2013-14. Mae materion allweddol eraill sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol gyffredinol unrhyw gyngor, er enghraifft sylfaen gyffredinol y Dreth Gyngor, y gallu i gynhyrchu incwm yn lleol a'r lefelau amddifadedd.

Arddangosyn 2: cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru (£ y pen) yn 2016-17

Dengys y graff isod faint o arian y mae pob cyngor yn ei gael fesul pen o'r boblogaeth gan Lywodraeth Cymru.




Ffynhonnell: StatsCymru (www.statscymru.llyw.cymru)

[3] Mae'r ffigur ar gyfer y gostyngiad canrannol y pen yn amrywio o'r gostyngiad mewn cyllid craidd yn 2013-14 oherwydd yr amrywio yn y boblogaeth a welwyd yn ystod yr un cyfnod.

# Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16

## Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi cyflawni 82% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni

### Nodweddion cynllunio ariannol da

19 Dylai fod gan gynghorau sydd â hanes da o gyflawni'r rhan fwyaf o arbedion arfaethedig yn ystod y flwyddyn gynlluniau arbedion a chynlluniau cyflawni datblygedig ar waith a ategir gan brosesau monitro cadarn. Nid oes rhaid i'r cynghorau hyn gau'r bwlch yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn, drwy nodi arbedion amgen, defnyddio cyllid untro heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, cronfeydd cyffredinol wrth gefn, cronfeydd wrth gefn nac incwm heb ei gynllunio damweiniol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

### Yr hyn a nodwyd gennym

20 Nododd y Cyngor gynigion ar gyfer gwneud arbedion gwerth £12.640 miliwn er mwyn helpu i gau'r bwlch yn y gyllideb ar gyfer 2015-16 a chyflawnodd 82% o'i arbedion arfaethedig. Mae'r Cyngor yn rhannu ei arbedion yn arbedion rheoli (£7.552 miliwn) ac yn arbedion polisi (£5.088 miliwn). Mae'n rhaid i arbedion nas cyflawnwyd gael eu cyflawni mewn mannau eraill yng nghyllideb yr adran neu drwy gronfeydd adrannol wrth gefn a glustnodwyd. Mae'r Cyngor yn cario ymlaen unrhyw arbedion nas cyflawnwyd i flynyddoedd dilynol a chyfrifoldeb adrannau yw sicrhau y cânt eu cyflawni.

21 Caiff cynlluniau arbedion eu hymgorffori yn y gyllideb sylfaenol. Mae'r Cyngor yn adolygu cynnydd ar ei gynlluniau arbedion bob mis ac yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd bob deufis i'w Fwrdd Gweithredol Rhaglenni a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau chwarterol ar fonitro'r gyllideb i'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys adroddiad cynhwysfawr ar gynnydd o ran cynlluniau arbedon nac arbedion effeithlonrwydd. O ganlyniad, nid yw'r Aelodau yn cael gwybodaeth ddigon manwl i herio cynlluniau arbedion nas cyflawnwyd. Un cynnig ar gyfer gwella yn ein hadolygiad yn 2015-16 oedd sicrhau bod adroddiadau ar gynlluniau arbedion unigol yn fwy tryloyw. Er bod y Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn at ddibenion archwilio mewnol, ceir diffyg tryloywder o hyd mewn adroddiadau ar arbedion a gyflawnwyd a gyhoeddir gan y Bwrdd Gweithredol.

22 Roedd gan y Cyngor warged cyffredinol o £1.366 miliwn ar ei gyllideb refeniw yn 2015-16. Cafwyd gorwariant net cyfunol ar gyllidebau adrannol, yn ymwneud yn bennaf â'r adran Addysg ac adran yr Amgylchedd. Defnyddiwyd cronfeydd adrannol wrth gefn i wneud iawn am orwariant ar gyllidebau adrannol. Cafwyd tanwariant o £1.399 miliwn ar y gyllideb ariannu cyfalaf. Trosglwyddodd y Cyngor y rhan fwyaf o'r gwarged i'w gronfa datblygu mawr wrth gefn, a hynny'n ddoeth. Fe'i

defnyddir er mwyn helpu i roi newidiadau i wasanaethau ar waith. Trosglwyddwyd y balans o £280,000 i'w gronfa gyffredinol wrth gefn.

# Trefniadau cynllunio ariannol

## Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol cadarn ond cyfyngedig yw'r cysylltiadau rhwng prosesau cynllunio corfforaethol ac ariannol ac adroddiadau i'r Aelodau

### Nodweddion cynllunio ariannol da

23 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn elfen allweddol o fframwaith cynllunio effeithiol ac integredig. Dylai gwaith cynllunio ariannol tymor canolig a gwaith cyllidebu blynyddol da adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau strategol y cyngor ar gyfer y flwyddyn, ac yn y tymor hwy. Fel arfer mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig yn cwmpasu cyfnod o rhwng tair a phum mlynedd a dylent nodi sut y caiff adnoddau eu neilltuo i ddarparu gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau'r cyngor. Dylid ystyried yr effaith ar ddinasyddion a rhanddeiliaid eraill hefyd.

24 Mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig da yn cynnwys ystyriaeth o'r risgiau ariannol allweddol ynghyd â sut i'w lliniaru. Mae'n rhaid i gynghorau lunio tybiaethau ynghylch chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, y galw am wasanaethau yn y dyfodol a chostau darparu gwasanaethau, ac mae angen seilio'r rhain ar ragfynegiadau rhesymol. Dylai'r cyngor hefyd ddefnyddio gwaith modelu ariannol i asesu'r effeithiau tebygol ar gynlluniau ariannol ac arbedion gofynnol ar gyfer amrywiaeth o wahanol senarios a risgiau. Dylai'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gael ei adolygu'n aml a'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran tybiaethau a risgiau.

25 Dylai cynghorau weithredu o fewn lefel o gronfeydd wrth gefn a balansau (gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balans y gronfa gyffredinol), a gymeradwywyd gan yr Aelodau, ac sy'n briodol i'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol y maent yn eu hwynebu. Dylai cynghorau gynnwys manylion am y ffordd y caiff cronfeydd wrth gefn eu defnyddio dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

26 Mae'n rhaid i'r cyngor ddangos ei fod yn deall ei ffynonellau incwm a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy a'i fod wedi adolygu ei ymagwedd tuag at ffioedd a thaliadau, am ei wasanaethau, er mwyn sicrhau gwerth am arian.

### Yr hyn a nodwyd gennym

27 Yn ein hadolygiad yn 2015-16 canfuom y gallai gallu'r Cyngor i ymateb i heriau ariannol yn y dyfodol gael ei lesteirio am nad oedd cysylltiad clir rhwng gwaith cynllunio gwasanaethau ac ariannol a pherfformiad. Cynigiwyd gennym y dylai'r Cyngor ddatblygu cysylltiadau mwy penodol rhwng y Cynllun Ariannol Tymor

Canolig a gwaith cynllunio gwelliant y Cyngor, a nodi'r effaith y mae cyfyngiadau ariannol yn ei chael ar ganlyniadau i ddinasyddion.

28 Yn ein hadolygiad yn 2016-17, nodwyd gennym mai cyfyngedig oedd y cysylltiadau rhwng Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chynlluniau allweddol y Cyngor. Mae adroddiad cyllideb 2016-17 yn nodi bod y gyllideb wedi cael ei pharatoi gan roi sylw i Strategaeth Gorfforaethol 2015-20 y Cyngor. Ond, nid yw'r adroddiad yn esbonio sut mae'r gyllideb wedi'i chysylltu â chynlluniau allweddol y Cyngor na sut y caiff adnoddau eu dyrannu i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor. Ac nid yw ychwaith yn esbonio'r effaith ar wasanaethau. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu atgyfnerthu'r cysylltiadau hyn yn ei broses gynllunio ar gyfer 2017-18. Y bwriad yw cysoni'r broses o gyhoeddi cynlluniau perfformiad, busnes a chyllidebol fel y gall pwyllgorau craffu a'r Cyngor eu hystyried ar yr un pryd.

29 Mae'r Cyngor yn ymgynghori'n helaeth â dinasyddion, partneriaid a rhanddeiliaid eraill. Mae'n cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer cynlluniau arbedion sy'n ymwneud â pholisi.

30 Mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig. Caiff tybiaethau cynllunio ariannol tymor canolig eu hadolygu'n barhaus. Rhoddir adroddiad diweddaru ffurfiol sy'n cario rhagamcanion y gyllideb ymlaen i'r Aelodau ym mis Gorffennaf ac unwaith eto ar ôl i'r setliad dros dro gael ei gyhoeddi. Cyflwynir adroddiadau diweddaru mewnol ar dybiaethau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n ystyried newidiadau mewn newidynnau allweddol ac unrhyw faterion eraill sy'n dod i'r golwg, i'r Uwch Dîm Rheoli yn amlach.

31 Mae rhagamcanion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd. Mae rhagamcanion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhai cynhwysfawr ac yn cynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd ac maent wedi'u modelu ar y senarios mwyaf optimistaidd, llai ffafriol a lleiaf optimistaidd. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod rhwng 2017-18 a 2019-20 yn nodi bwlch cyllidebol o £30 miliwn. Mae'r Cyngor wedi nodi arbedion dangosol o £21 miliwn dros y cyfnod, gan adael bwlch cyllidebol o £9 miliwn. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y rhan fwyaf o'r swm hwn o £9 miliwn yn codi yn 2019-20 ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i nodi rhagor o arbedion. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys y defnydd arfaethedig o £200,000 o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ategu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2016-17 a 2017-18, ond ni fwriedir defnyddio'r gronfa gyffredinol wrth gefn y tu hwnt i hyn.

32 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hefyd yn cael ei ategu gan dybiaethau rhesymol a phriodol ar gyfer newidynnau allweddol megis dyfarniadau cyflog, chwyddiant prisiau, lefelau ariannu a lefelau treth gyngor. Mae effaith newidiadau demograffig, newidiadau o ran galw a phwysau anosgoadwy hefyd yn cael ei hasesu.

33 Mae gan y Cyngor tua £8 miliwn fel balans gweithredol yn ei gronfa gyffredinol wrth gefn a £98 miliwn arall mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Nid oes gan y Cyngor bolisi ynglŷn â chronfeydd wrth gefn ond adolygir lefel y gronfa gyffredinol wth gefn wrth benderfynu'n derfynol ar y gyllideb flynyddol a chwblhau'r datganiad cyfrifon ac mae'r adroddiad ar y gyllideb flynyddol yn cynnwys rhagamcanion lefel

uchel o’r newid yn y defnydd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Er enghraifft, adolygodd y Cyngor y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ganddo wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2016-17 a nododd y gellid rhyddhau tua £20.5 miliwn dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i’w fuddsoddi yn rhaglen gyfalaf y Cyngor. Fodd bynnag, un gwendid yw nad yw’r adolygiad blynyddol yn ddigon manwl i alluogi’r Aelodau i ddeall diben y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn llawn. Er bod arfarniad llawn o ddiben pob cronfa wrth gefn hefyd wedi’i roi yn y Datganiad Cyfrifon bob blwyddyn nid yw manylion o’r fath ar gael i’r Aelodau pan fyddant yn cytuno ar y gyllideb flynyddol a’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae’r Cyngor wedi datblygu strategaeth ddrafft ynglŷn â chronfeydd wrth gefn ond ar adeg ein hadolygiad nid oedd wedi’i chymeradwyo.

34 Nid oes gan y Cyngor bolisi corfforaethol cyfredol ar gynhyrchu incwm/codi tâl ar hyn o bryd ond mae ganddo grynodeb o ffioedd. Pennir lefel ffioedd a thaliadau yn y gyllideb flynyddol yn unol â strategaeth gyllidebol y Cyngor a chytunir arnynt bob blwyddyn gan y Cyngor. Caiff y risg sy’n deillio o’r hen bolisi ei lliniaru’n rhannol gan y ffaith bod adrannau yn cadw cofrestrau unigol o ffioedd a thaliadau a cheir rhywfaint o dystiolaeth bod cyfleoedd i gynhyrchu incwm wedi cael eu hystyried yn y cynigion ar gyfer arbedion dangosol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Hefyd, caiff newidiadau eu trafod gan bwyllgorau craffu. Fodd bynnag, mae diffyg dull corfforaethol o gynhyrchu incwm yn gwanhau’r trefniadau ariannol o bosibl ac yn golygu y gellid colli cyfleoedd. Mae’r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod wrthi’n datblygu polisi Cynhyrchu Incwm/Codi Tâl.

# Cynllun Arbedion 2016-17

## Mae’r Cyngor yn rhagweld y caiff 86% o’i gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 eu cyflawni ond nid yw rhai ohonynt yn cynnwys digon o fanylion nac amserlenni cyflawni realistig

### Nodweddion cynllunio ariannol da

35 Mae gan gynghorau sy’n cyflawni arbedion yn effeithiol gynlluniau arbedion tra ystyriol sy’n rhan o strategaethau arbedion tymor hwy a ategir gan gynlluniau arbedion a chyflawni unigol datblygedig sydd wedi’u costio’n llawn ac sy’n cyd-fynd â’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Dylai cynigion ar gyfer gwneud arbedion fod yn rhai penodol a dylid cynnal asesiad risg ohonynt er mwyn nodi pa mor debygol ydyw y cânt eu cyflawni.

### Yr hyn a nodwyd gennym

36 Yn ein hadolygiad yn 2015-16, canfuom fod y cynlluniau arbedion ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn benodol ond nad oedd yr adroddiadau monitro ariannol yn nodi p’un a oedd cynlluniau arbedion penodol wedi cael eu cyflawni, er y cyfeiriwyd

at gynlluniau arbedion nas cyflawnwyd mewn adroddiadau monitro cyllidebol rheolaidd

37 Yn ein hadolygiad yn 2016-17 canfuom fod y Cyngor wedi nodi cynlluniau arbedion gwerth £12.9 miliwn i fodloni gofyniad 2016-17 i wneud arbedion. Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys arbedion dangosol penodol i lenwi’r rhan fwyaf o’r bwlch cyllidebol ar gyfer 2017-18 a 2018-19. Ar adeg ein hadolygiad, gofynnwyd i adrannau nodi cynigion ar gyfer arbedion dangosol er mwyn llenwi’r bwlch cyllidebol a ragwelir ar gyfer 2019-20.
Mae adroddiad monitro ariannol y Cyngor ar gyfer chwarter un yn rhagweld y bydd yn cyflawni 86% o’r cynlluniau arbedion arfaethedig ar gyfer 2016-17.

38 Mae’r Cyngor yn dosbarthu ei gynlluniau arbedion yn arbedion rheoli ac yn arbedion polisi. Nid yw arbedion rheoli yn cael unrhyw effaith y gellir ei dirnad ar lefel gyffredinol y gwasanaethau a ddarperir nac ar bolisi’r Cyngor ond mae arbedion polisi yn ymwneud ag effeithlonrwydd neu ad-drefnu gwasanaethau a fydd yn effeithio’n uniongyrchol ar y ffordd y darperir gwasanaethau. Caiff yr arbedion hyn eu rhannu ymhellach yn is-feysydd. Un o’r rhain yw trawsnewid gwasanaethau. Mae’r Cyngor yn amcangyfrif bod ei gynlluniau arbedion trawsnewidiol yn cyfateb i 82% o’r arbedion arfaethedig.

39 Nid yw’r Cyngor yn asesu risg o ran cyflawnadwyedd ei gynllun arbedion wrth bennu’r gyllideb flynyddol, ond caiff cadernid y cynigion ar gyfer gwneud arbedion ei herio’n fewnol ac yn ystod sesiynau seminar i’r Aelodau cyn iddynt gael eu cynnwys yn y gyllideb. O ganlyniad, wrth bennu’r gyllideb flynyddol, mae’r adrannau yn rhagweld y bydd yn cyflawni ei holl gynlluniau arbedion. Os na chaiff arbedion eu cyflawni, mae’n ofynnol i’r gwasanaeth wneud iawn am y diffyg mewn rhannau eraill o’i gyllideb. Mae gan y Cyngor gronfeydd adrannol wrth gefn, y gellid eu defnyddio os oes angen, yn amodol ar gymeradwyaeth. Mae’r Cyngor hwn yn monitro cynnydd ei holl gynlluniau arbedion yn fewnol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

40 Mae’r Cyngor yn ymgynghori’n helaeth ar ei gyllideb flynyddol, sy’n cynnwys seminarau, sioeau teithiol ar y gyllideb, arolygon ar-lein, y cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd â rhanddeiliaid mewn cynghorau cymuned a thref, y cyngor ieuenctid ac undebau. Mae pwyllgorau craffu yn herio’r gyllideb arfaethedig. Mae’r Cyngor yn ystyried ymatebion i’r ymgynghoriad ar gynlluniau arbedion cyn i’r gyllideb gael ei chymeradwyo.

41 Mae cynlluniau arbedion y Cyngor yn rhai penodol. Mae rhestr o’r holl gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 a chynlluniau arbedion dangosol ar gyfer y dyfodol wedi’i chynnwys yn yr adroddiad ar bennu’r gyllideb flynyddol a’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae’r cynigion wedi’u categoreiddïo rhwng cynlluniau arbedion rheoli a chynlluniau arbedion polisi ac wedi’u rhestru’n unigol fesul llinell.

42 Nid ystyrir bod arbedion rheoli yn cael unrhyw effaith ar ddinasyddion na rhanddeiliaid ac nid oes angen cynnal Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar eu cyfer fel arfer. Fodd bynnag, cynhelir Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr holl gynigion arbedion polisi.

43 Mae'r Cyngor yn monitro cynigion ar gyfer gwneud arbedion fesul llinell yn fewnol a chaiff adroddiad ar gynnydd ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol Prosiectau. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau monitro ariannol i'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys adroddiad monitro arbedion ac nid ydynt yn ei gwneud yn glir i'r Aelodau p'un a yw'r arbedion yn cael eu cyflawni. Yn ein hadolygiad yn 2015-16 cynigiwyd gwaith monitro ac adroddiadau ar dargedau arbedion unigol er mwyn sicrhau bod meysydd o orgyflawni a thangyflawni yn cael eu nodi'n benodol gan alluogi her effeithiol a chamau adferol. Nid yw'r Cyngor wedi ymateb i'r cynnig ar gyfer gwella eto. Yn ein barn ni, mae'r diffyg tryloywder mewn trefniadau adrodd yn gwanhau atebolrwydd.

44 Mae adroddiad monitro ariannol y Cyngor ar gyfer chwarter un yn rhagweld gorwariant net o £1.898 miliwn ar ei gyllideb refeniw. Mae'r adroddiad monitro arbedion mewnol yn rhagweld na fydd arbedion gwerth £1.865 miliwn (14%) mewn cynlluniau gwerth yn cael eu cyflawni, y mae £1.625 ohonynt yn arbedion rheoli.

45 Y tri chynnig ar gyfer gwneud arbedion yn 2016-17 a samplwyd gennym er mwyn profi'r tybiaethau sy'n sail iddynt ac a oes systemau digonol i sicrhau y gellir eu cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig oedd:

- Gwasanaethau Cymunedol: Cartrefi preswyl awdurdod lleol i bobl hŷn (£200,000);
- Gwasanaethau Cymunedol: Llyfrgelloedd Symudol (£92,000); a'r
- Amgylchedd: Goleuadau Priffyrdd (£196,000 yn 2016-17).

46 Dangosodd ein hadolygiad o'n sampl hon o gynlluniau arbedion nad oedd pob achos busnes yn ddigon datblygedig pan gytunwyd ar y gyllideb flynyddol ac er bod y tybiaethau a oedd yn sail i'r costau yn rhesymol, bod cyflawni yn unol â'r amserlenni arfaethedig yn amrywio.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru